



Eisteddfod

EISTEDDFOD YR URDD SIR GAERFYRDDIN

PECYN BEIRNIAID

COGURDD

2023

COGURDD BL.4 - 6

COGURDD BL.7 - 9

COGURDD BL.10 - 19 OED

COGURDD 19 - 25 OED

BEIRNIAID:

BLWYDDYN 4 - DAN 19 OED, LISA FEARN (Y SIED)

19 - 25 OED, HYWEL GRIFFITHS (BEACH HOUSE, OXWICH) 

Pecyn Beirniad Cystadleuaeth CogUrdd

Eisteddfod yr Urdd Sir Gaerfyrddin 2023

Nodiadau a Chanllawiau i'r Beirniaid

Diolch yn fawr am gytuno i feirniadu un o rowndiau CogUrdd. Dyma ychydig o gyfarwyddiadau perthnasol sydd o ddefnydd i chi pan yn beirniadu.

Pecyn Gwybodaeth i Cystadleuwyr

Darllenwch drwy **Becyn Gwybodaeth i Gystadleuwyr** cyn y gystadleuaeth er mwyn cyfarwyddo'ch hunan i'r hyn sydd yn ddisgwyliedig gan y cystadleuwyr. Mae'r pecyn yn cynnwys manylion y ryseitiau, dull coginio a rheolau cystadlu ar gyfer pob categori oedran. Bydd copi o'r Pecyn Gwybodaeth ar gael drwy wefan yr Urdd neu Swyddog Cymunedol lleol.

Dylai'r beirniaid ystyried:

Hylendid a diogelwch bwyd

1. Gofal y cystadleuwyr gyda hylendid a glanweithdra.
2. Diogelwch bwyd a gofal cyffredinol o'u hunain ac eraill.
3. Gwisg addas gan y cystadleuydd.
4. Arferion golchi dwylo da, yn enwedig wrth drin cig, pysgod neu wyau amrwd neu gydag arferiad sy'n lleihau croes heintio.
5. Cadw safle gwaith y cystadleuydd yn daclus.

Sgiliau a thechnegau coginio

6. Defnyddio arferion gweithio gofalus.
7. Defnydd cywir o gyllyll ac offer trydanol.
8. Techneg cywir wrth baratoi a choginio.

Pryd gorffenedig

9. Cyflwyniad taclus, wedi ei addurno yn briodol.
10. Blas, ansawdd a thymheredd y pryd gorffenedig.
11. Pryd o safon uchel sy'n adlewyrchu lefel y cystadleuydd
12. Ansawdd a chyflwyniad y bwyd ar y plât yn unig. Ni ddylid ystyried addurniadau ac ategolion bwrdd wrth feirniadu

Trefn a Rheolaeth amser

13. Gweithio'n effeithlon oddi mewn i'r amser ganiateir i baratoi a chyflwyno'r bwyd.
14. Rheolaeth o'r gorsafoedd gwaith a phob elfen maent yn ceisio eu cyflawni..

Ffurflenni Beirniadu

Nid oes angen dilyn system farcio, ond mae enghraifft o ffurflen feirniadu a marciau wedi ei ddarparu isod. Y cystadleuydd fydd yn cyrraedd y meini prawf uchod, neu gyda'r nifer fwyaf o farciau fydd yn mynd ymlaen i'r rown ganlynol.

Nid oes hawl rhoi cydradd wobr.

Gellir dosbarthu'r marciau am y canlynol:

- Paratoi (defnyddio'r 15 munud yn effeithlon) = **5 marc**
- Paratoi bwyd / Sgiliau a Thechnegau Coginio = **10 marc**
- Trefn a Rheolaeth Amser = **5 marc**
- Hylendid a Diogelwch Bwyd = **10 marc**
- Pryd gorffenedig (Blas a Chyflwyniad y bwyd ar y plât) = **20 marc**
Ni fydd marciau ychwanegol am addurniadau bwrdd ac ategolion

Ffurflen Farcio CogUrdd 2022/23

Categori Oedran: Bl.4 – 6 / Bl.7 – 9 / Bl.10 – 19 oed / 19 – 25 oed

Teitl y Rysáit:

Rownd: Ysgol // Rhanbarth // Cenedlaethol

Enw'r Cystadleuydd:

Maen Prawf	Sylwadau	Marc
Paratoi: <i>defnyddio'r 15 munud yn effeithlon</i>		/ 5
Paratoi bwyd <i>Sgiliau a thechnegau coginio</i>		/ 10
Trefn a Rheolaeth amser		/ 5
Hylendid a diogelwch bwyd		/ 10
Pryd gorffenedig <i>10 marc = blas</i> <i>10 marc = cyflwyniad</i> <i>* Ni ddylid ychwanegu marciau am addurniadau ac ategolion bwrdd</i>	Blas Cyflwyniad:	/ 20
Nodiadau Cyffredinol		<u>Cyfanswm</u> / 50

Lleoliad y gystadleuaeth:

Enw Beirniad:

Dyddiad: / /2022